Ysgol Gynradd Gymraeg Pontybrenin
Heol Casllwchwr, Gorseinon, Abertawe SA4 6AU
Ffôn/Tel: 01792 894210
E-bost/E-mail: YGG.Bryn-y-môr@swansea-edunet.gov.uk
Gwefan/Website: www.yggpontybrenin.com
Trydar/Twitter: @PontybreninYGG

# Grwpiau Ffocws Rhieni 2016/17

## Crynodeb o'r materion a godwyd gan aelodau'r Grŵp Ffocws Rhieni - tymor yr hydref

Meithrin a Derbyn - dyddiad y cyfarfod - 1/12/16

1. Mae golwg wych ar iard yr ysgol ar hyn o bryd ac mae'r marciau newydd ar yr iard yn boblogaidd iawn gyda disgyblion a'u rhieni.
2. Mae'r llyfrau cyswllt cartref/ysgol yn profi'n boblogaidd iawn. Fodd bynnag, byddai mwy o arweiniad ar sut i fanteisio'n llawn arnynt yn ddefnyddiol.
3. Mae staff yr ysgol yn wych o ran ymateb yn gyflym i bryderon cyffredinol a fynegir gan rieni.
4. Mae'r trosolwg wythnosol o'r dyddiadur yn ddefnyddiol iawn ac mae'r newid i ddydd Gwener wedi'i groesawu.
5. A fyddai'n bosib i rieni dderbyn trosolwg rheolaidd o'r pynciau a drafodir yn y dosbarthiadau er mwyn iddynt gefnogi eu plant yn well gartref?
6. A allai rhieni Meithrin/Derbyn gael noson rieni ychwanegol gan fod ganddynt lai na'r dosbarthiadau eraill ar hyn o bryd?
7. Roedd llawer o rieni'n anfodlon ar ansawdd y portreadau unigol gan Colorfoto yn ddiweddar. Roedd yn ymddangos bod y ffotograffau wedi'u tynnu ar frys. Hefyd hoffai llawer o rieni gael ffotograff mwy cyfoes yn nhymor yr haf na'r ffotograffau traddodiadol sy'n cael eu tynnu ar hyn o bryd.

Blynyddoedd 1 a 2 - dyddiad y cyfarfod - 6/12/16

1. Mae rhieni'n gwerthfawrogi'r trosolwg wythnosol o'r dyddiadur gan ei fod yn caniatáu iddynt gynllunio ar gyfer yr wythnos ganlynol.
2. Mae llyfrau cyswllt cartref/ysgol yn wych ac yn ddefnyddiol iawn wrth rannu negeseuon rhwng y cartref a'r ysgol. Fodd bynnag, byddai mwy o arweiniad ar sut i'w defnyddio'n gywir yn cael ei groesawu.
3. Mae'r cyngherddau Nadolig wedi bod yn fendigedig eto eleni ac mae rhieni am ddiolch i'r staff am baratoi'r plant mor dda.
4. Er bod gan y llyfrau cyswllt cartref/ysgol dudalen 'Targedau Tymhorol', nid yw targedau'r holl ddisgyblion wedi'u nodi eto. (Cafodd y llyfrau eu

hargraffu'n hwyr. Bydd targedau'r tymor nesaf yn cael eu cofnodi'n gynharach.)

5. Mae'r tu allan i'r ysgol yn fwy atyniadol a chroesawgar o lawer ac mae'r marciau ar yr iard a'r 'Diwrnod Cynnal a Chadw' wedi cael effaith gadarnhaol.
6. Mae'r grisiau sy'n arwain at gaban y dosbarth Derbyn/Blwyddyn 1 yn llithrig iawn mewn tywydd gwlyb (mae'r ysgol wedi cysylltu â'r awdurdod lleol i ofyn am baent gwrthlithro ar gyfer y grisiau).
7. Mae nifer o rieni wedi gofyn cwestiynau am y modd yr addysgir disgyblion yn y dosbarthiadau cymysg.
8. Mae staff cefnogol iawn gan yr ysgol ac mae'r rhieni'n werthfawrogol iawn o'r gwaith y maent yn ei wneud wrth gefnogi eu plant.
9. Gall sicrhau bod yr holl blant yn cael eu gollwng yn yr ysgol rhwng 8.40am ac 8.50am fod yn her i rieni a chanddynt fwy nag un plentyn. A fyddai'n bosib ymestyn y cyfnod 'gollwng'?

<u>Blynyddoedd 3 a 4 - dyddiad y cyfarfod - 8/12/16</u>

1. Mae golwg wych ar iard yr ysgol ar hyn o bryd ac mae'r marciau newydd ar yr iard yn boblogaidd iawn gyda disgyblion a'u rhieni.
2. Mae'n wych gweld plant yn cael eu haddysgu a'u hannog i ddatblygu llawysgrifen daclus, sy'n cael ei diystyru'n aml y dyddiau hyn.
3. Mae'r llyfrau cyswllt cartref/ysgol yn profi'n boblogaidd iawn. Fodd bynnag, byddai mwy o arweiniad ar sut i fanteisio'n llawn arnynt yn ddefnyddiol.
4. Mae'n wych gweld cynifer o glybiau allgyrsiol yn cael eu cynnig i ddisgyblion. Mae rhieni'n ddiolchgar i staff am fod mor barod i roi o'u hamser.
5. Mae'n ymddangos bod Cyngor yr Ysgol yn weithgar iawn ac yn gwneud cyfraniad gwych at fywyd yr ysgol.
6. Mae'n galonogol gweld disgyblion yn cwblhau eu gwaith cartref heb iddo achosi gormod o bryder neu straen iddynt. Fodd bynnag, a fyddai'n bosib i ddisgyblion gael gwaith cartref yn seiliedig ar brosiectau lle gallant ddewis pynciau a bod yn greadigol o ran sut maent yn cyflwyno eu gwaith cartref?
7. Mae'n ymddangos bod llai o wersi ymarfer corff wedi'u cynnal yn ddiweddar. (Roedd hyn o ganlyniad i ddefnyddio'r neuadd i ymarfer ar

Ysgol Gynradd Gymraeg Pontybrenin
Heol Casllwchwr, Gorseinon, Abertawe SA4 6AU
Ffôn/Tel: 01792 894210
E-bost/E-mail: YGG.Bryn-y-môr@swansea-edunet.gov.uk
Gwefan/Website: www.yggpontybrenin.com
Trydar/Twitter: @PontybreninYGG

gyfer y cyngherddau Nadolig.)

<u>Blynyddoedd 5 a 6 - dyddiad y cyfarfod - 7/12/16</u>

1. Er bod y llyfrau cyswllt cartref/ysgol yn syniad da iawn, hoffai rhieni gael mwy o esboniad o ran sut dylid eu defnyddio'n gywir.
2. Gall casglu plant ar ddiwedd y diwrnod ysgol fod yn anodd gan fod disgyblion yr Iau i gyd yn gadael yr ysgol drwy'r gât waelod. A oes ffordd arall o wneud hyn?
3. A allai'r staff wisgo siacedi/bibiau fflwroleuol wrth hebrwng disgyblion i'r bysus? Byddai hyn yn ei wneud yn fwy diogel ac yn haws nodi disgyblion wrth gerdded ger y cylch troi.
4. Pryd bydd toiledau'r merched Iau yn debygol o gael eu hadnewyddu? (Gwneir y gwaith yn gynnar yn nhymor y gwanwyn.)
5. Beth mae'r awdurdod lleol yn ei wneud i fynd i'r afael â phroblem gormod o ddisgyblion yn YGG Pontybrenin? A oes unrhyw beth y gall rhieni ei wneud i helpu symud pethau ymlaen? (Ar ôl llawer o lythyron, e-byst a galwadau ffôn i gynghorwyr lleol a'r awdurdod lleol, anfonwyd llythyr a luniwyd gan Lindsay Harvey, y Prif Swyddog Addysg) at rieni ar 14/12/16.)

Diolch i bawb am eich holl sylwadau. Byddwn yn ceisio ein gorau i fynd i'r afael â'r pryderon yr ydych wedi'u mynegi yn y fforymau rhieni hyn ac yn gobeithio y byddwch yn sylwi ar welliannau yn y meysydd hyn yn fuan. Fodd bynnag, os rydych yn parhau i bryderu neu os oes gennych fwy o sylwadau neu awgrymiadau, cysylltwch â mi yn yr ysgol i'w trafod ymhellach.

Cynhelir y rownd nesaf o gyfarfodydd y Grŵp Ffocws Rheini ganol tymor y gwanwyn.

Diolch unwaith yn rhagor am eich cefnogaeth barhaus.

Yn ddiffuant,

Mr Ceri Scourfield
Pennaeth